**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 18 Ionawr 2020**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Iau, 21 Ionawr 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 28 Ionawr, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 29 Ionawr, 2021.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew (eitemau 1 i 5 yn unig), Llinos Medi Huws (Cadeirydd) R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn Bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Aled M. Jones, R Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts

**Ymddiheuriadau**: Dim.

(10:00 am i 10:45 am)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cyllideb Gyfalaf Cychwynnol 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Argymell i'r Cyngor llawn y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2021/22:-**<br><br>**Cynlluniau/Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2020/21 — £ 3.970m**<br>**Adnewyddu / Amnewid Asedau — £ 4.167m**<br>**Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau Blaenoriaeth) — £ 780k**<br>**Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (yn amodol fod cyllid ar gael) — £ 325k**<br>**Ysgolion yr 21ain Ganrif — £ 6.6m**<br>**Cyfrif Refeniw Tai — £20.313m**<br><br>**Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf — £36.155m**<br><br>**Cyllidir gan:**<br><br>**Grant Cyfalaf Cyffredinol — £ 2.163m** |

| | |
|---|---|
| | **Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol £ 2.158m**<br>**Balansau Cyffredinol £ 596k**<br>**Balansau Cyffredinol (os oes digon o gyllid ar gael) £ 325k**<br>**Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif £ 2.897m**<br>**Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif £ 498k**<br>**Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn y Flwyddyn £15.639m**<br>**Benthyca Digefnogaeth gan y CRT £ 2.0m**<br>**Grantiau Allanol £ 5.909m**<br>**Cyllid 2020/21 a Ddygwyd Ymlaen £ 3.970m**<br><br>**Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22 £36.155m**<br><br>**• Nodi'r gofynion cyllido posibl ar gyfer 2022/23 ymlaen fel y nodir yn Atodiad 1, Tabl 3 a pharagraff 5.3 yr adroddiad.**<br>**• Oherwydd y pwysau ar y gyllideb gyfalaf, bod yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn gwneud cynrychioliadau drwy lythyr i Weinidog Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru bod cynlluniau awdurdod lleol ar gyfer atal/lliniaru llifogydd yn y dyfodol yn cael eu hariannu 100% gan grant Llywodraeth Cymru, a**<br>**• Bod yr Aelod Portffolio Cyllid yn ysgrifennu at Weinidog Cyllid Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at y pwysau ar y gyllideb gyfalaf yn Ynys Môn o ganlyniad i ddiffyg cynnydd yn y cyfalaf cyffredinol dros y blynyddoedd a'r cyfyngiadau y mae hyn yn debygol o'i roi ar gynlluniau'r Cyngor o ran gweithgareddau cyfalaf a buddsoddiadau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gynnig Cyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Y Cyngor Llawn sy'n** |

| | |
|---|---|
| | **penderfynu ar y Gyllideb Gyfalaf** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cyllideb Refeniw Ddrafft 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br>• **Yr addasiadau i'r Gyllideb sydd wedi eu cynnwys yn y Gyllideb Ddisymud fel y nodir hwy ym Mharagraffau 4 i 7 yr adrddiad.**<br>• **Y gyllideb ddisymud ar gyfer 2021/22, sef £147.076m, ac a ddylai fod yn sail i gyllideb refeniw 2021/22.**<br>• **Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 o 3.75% a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.**<br>• **Diwygiadau arfaethedig ychwanegol i'r gyllideb fel y nodir yn Nhabl 5 yr adroddiad.**<br>• **Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2021/22 o £147.531m.**<br>• **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y cynnig ar gyfer y gyllideb arfaethedig a'r cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer 2021/22.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gynnig Cyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2021/22.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Y Cyngor Llawn sy'n penderfynu ar y Gyllideb Refeniw** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Achos Busnes - Corn Hir**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn (ABL) ar gyfer adeilad newydd yn lle Ysgol Corn Hir.** |

| | |
|---|---|
| | • **Cymeradwyo cyflwyno'r ABL i Lywodraeth Cymru**<br>• **Cymeradwyo bod derbynebau cyfalaf yn cael eu clustnodi ar gyfer adeiladu'r adeilad ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir, yn amodol ar ddim problemau yn codi gyda gwerthu'r safle.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r ABL os oes angen – os nad yw'r newidiadau hynny yn arwain at newidiadau sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd parti).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gydag Ysgol Newydd Corn Hir** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |